# Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023

**2023 dsc 3**

## RHAN 3

ADEILADAU O DDIDDORDEB PENSAERNÏOL NEU HANESYDDOL ARBENNIG

## PENNOD 4

GORFODI RHEOLAETHAU SY'N YMWNEUD AG ADEILADAU RHESTREDIG

PROSPECTIVE

*Cydymffurfio â hysbysiadau gorfodi*

### 130 Gorchymyn i ganiatáu camau sy'n ofynnol gan hysbysiad gorfodi

(1) Caiff perchennog tir wneud cais drwy gŵyn i lys ynadon am orchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson arall a chanddo fuddiant yn y tir ganiatáu i'r perchennog gymryd camau sy'n ofynnol gan hysbysiad gorfodi.

(2) Caiff y llys wneud gorchymyn o'r fath os yw wedi ei fodloni bod y person arall yn atal y perchennog rhag cymryd camau sy'n ofynnol gan yr hysbysiad gorfodi.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 130 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 212(2)**

*__Statws__ Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 15/06/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) croes bennawd yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Croes Bennawd: Cydymffurfio â hysbysiadau gorfodi yn gyfredol gyda’r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

## 131 Pŵer i fynd ar dir a chymryd camau sy’n ofynnol gan hysbysiad gorfodi

(1) Os yw’r cyfnod y mae hysbysiad gorfodi yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gam gael ei gymryd ynddo wedi dod i ben ac nad yw’r cam wedi ei gymryd, caiff yr awdurdod cynllunio a ddyroddodd yr hysbysiad, ar unrhyw adeg resymol, fynd ar y tir y mae’r hysbysiad yn ymwneud ag ef a chymryd y cam.

(2) Mae person sy’n fwriadol yn rhwystro person sy’n arfer pŵer o dan is-adran (1) yn cyflawni trosedd.

(3) Mae person sy’n euog o drosedd o dan is-adran (2) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw’n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

(4) Nid yw’r adran hon yn gymwys mewn perthynas â thir y Goron.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** A. 131 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 212(2)**

## 132 Adennill costau cydymffurfio â hysbysiad gorfodi

(1) Pan fo awdurdod cynllunio yn arfer y pwerau o dan adran 131(1) i fynd ar dir a chymryd cam sy’n ofynnol gan hysbysiad gorfodi, caiff yr awdurdod adennill oddi wrth berson sydd ar y pryd yn berchennog ar y tir y costau y mae’n mynd iddynt yn rhesymol wrth wneud hynny.

(2) Os yw awdurdod cynllunio yn ceisio adennill costau o dan is-adran (1) oddi wrth berchennog ar dir—

(a) y mae ganddo hawlogaeth i gael crogrent y tir dim ond fel asiant neu ymddiriedolwr ar gyfer person arall (y “penadur”), a

(b) nad oes ganddo, ac nad oedd ganddo ar unrhyw adeg ers y diwrnod pan fynnwyd bod y costau yn cael eu talu, ddigon o arian ar ran y penadur i dalu’r costau yn llawn,

mae atebolrwydd yr asiant neu’r ymddiriedolwr wedi ei gyfyngu i gyfanswm yr arian y mae’r asiant neu’r ymddiriedolwr wedi ei gael ar ran y penadur ers y diwrnod hwnnw.

(3) Os yw is-adran (2) yn atal awdurdod cynllunio rhag adennill y cyfan o’i gostau oddi wrth asiant neu ymddiriedolwr, caiff eu hadennill oddi wrth y penadur, neu’n rhannol oddi wrth y penadur ac yn rhannol oddi wrth yr asiant neu’r ymddiriedolwr.

(4) Pan fo copi o hysbysiad gorfodi wedi cael ei gyflwyno mewn cysylltiad ag adeilad rhestredig, mae—

(a) costau y mae perchennog neu feddiannydd ar yr adeilad yn mynd iddynt at ddiben cydymffurfio â’r hysbysiad, a

(b) symiau y mae perchennog ar dir yn eu talu o dan is-adran (1) mewn cysylltiad â chostau y mae’r awdurdod cynllunio yn mynd iddynt wrth gymryd camau sy’n ofynnol gan yr hysbysiad,

i’w trin fel pe aed iddynt neu pe baent wedi eu talu at ddefnydd ac ar gais y person a gyflawnodd y gwaith y mae’r hysbysiad yn ymwneud ag ef.

(5) Mae’r costau y gellir eu hadennill gan awdurdod cynllunio o dan is-adran (1), hyd nes iddynt gael eu hadennill, yn bridiant ar y tir y mae’r hysbysiad gorfodi yn ymwneud ag ef.

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 15/06/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) croes bennawd yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Croes Bennawd: Cydymffurfio â hysbysiadau gorfodi yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(6) Mae'r pridiant yn cymryd effaith fel pridiant tir lleol ar ddechrau'r diwrnod ar ôl y diwrnod y mae'r awdurdod yn cwblhau'r cam y mae'r costau'n ymwneud ag ef.

(7) Mae is-adran (8) yn gymwys pan—

(a) bo awdurdod cynllunio yn symud ymaith ddeunyddiau o dir yng nghwrs cymryd camau sy'n ofynnol gan hysbysiad gorfodi, a

(b) na fo perchennog y deunyddiau, o fewn 3 diwrnod ar ôl y diwrnod y cânt eu symud ymaith, yn hawlio'r deunyddiau ac yn mynd â hwy i ffwrdd.

(8) O ran yr awdurdod cynllunio—

(a) caiff werthu'r deunyddiau, a

(b) os yw'n gwneud hynny, rhaid iddo dalu'r enillion i'r person a oedd yn berchen ar y deunyddiau, ar ôl didynnu unrhyw gostau y gall yr awdurdod eu hadennill oddi wrth y person.

(9) Ni chaiff awdurdod cynllunio adennill costau o dan yr adran hon oddi wrth y Goron.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 132 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 212(2)**

## 133 Y drosedd o fethu â chydymffurfio â hysbysiad gorfodi

(1) Pan, ar unrhyw adeg ar ôl diwedd y cyfnod y mae hysbysiad gorfodi yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gam gael ei gymryd ynddo, na fo'r cam wedi ei gymryd, mae person sydd ar y pryd yn berchennog ar yr adeilad rhestredig y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef yn euog o drosedd.

(2) Caniateir i berson gael ei gyhuddo o drosedd o dan yr adran hon drwy gyfeirio at ddiwrnod neu at gyfnod hwy, a chaniateir iddo gael ei euogfarnu o fwy nag un drosedd mewn perthynas â'r un hysbysiad gorfodi drwy gyfeirio at gyfnodau gwahanol.

(3) Mewn achos yn erbyn person am drosedd o dan yr adran hon, mae'n amddiffyniad i'r person brofi—

(a) iddo wneud popeth y gellid bod wedi disgwyl iddo ei wneud i sicrhau i'r camau a oedd yn ofynnol gan yr hysbysiad gael eu cymryd, neu

(b) na chyflwynwyd copi o'r hysbysiad gorfodi i'r person ac nad oedd yn ymwybodol o'i fodolaeth.

(4) Mae person sy'n euog o drosedd o dan yr adran hon yn agored ar euogfarn ddiannod, neu ar euogfarn ar dditiad, i ddirwy.

(5) Wrth benderfynu swm y ddirwy, rhaid i'r llys roi sylw yn benodol i unrhyw fudd ariannol sydd wedi cronni, neu yr ymddengys ei fod yn debygol o gronni, i'r person o ganlyniad i'r drosedd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** A. 133 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 212(2)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 15/06/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) croes bennawd yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Croes Bennawd: Cydymffurfio â hysbysiadau gorfodi yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.